chwarter y Byd ai bobloedd negiad fel y Rhanodd Noa ddaear Hefo i oreſgynudd peleg Rhwng i heppil mynegiad pa rai o heppil Noah a aeth i bob chwarter or Byd Haneſion a henw Pwy aeth yn Rhaglaw i deyrnas Ogygia ymhen tri chant oflynyddoedd ar ol y dwr dilyw a henw pob rhaglaw.

a fy yno nes dwad y derwddon a henwi yn Werddon mynegia paflwyddyn o oedran y Byd Rhoes Duw yr Enfys i ymddangos ſef Bwa yn y Cwmwl yn gyfamod Rhyngtho a Noah na roe Duw ddwr dilyw ond hynny ddeſtrywio y Byd ai greadiria

44. 4. 6. 66

myne

giad pa flwyddyn o oedran [illegible]d y dechreuad adeiladu Twr Babilon a chymyſgiad yr Iaith yn amryw Ieithiodd Hanes pai genhedlaeth a Breſwyliodd gynta yn ynys y cedurn ſef Brydain fawr a pha ſawl Brenin a fu yn Rheoli ynddi gan ddechre ymhen wyth mlynedd ar hugain ar ol cymyſgu yr Iaith yn Babilon Rhifedi a henwau y brenhinoedd ai hiachau or frenhines Anne hyd at adda Hanes pwy oedd Tadau y mageen ar derwyddon ar beirdd.

Hanes pwy oedd y naw a deigain Merched a ddaeth ir ynys yma yn y Llong foel Heb na hwyl nagngor na llyw na llywydd. Ha-

hanes a henw rhai or cow ddaeth ar i hol mewn llonge eraill ac fe fy Rheini ai heppil yn benaeth ar yr ynys hon dros gant aphedwar 180 ugain Mlynedd hanes a dyſcodiad Brutus yma wedi caſglu o amryw lyfra er Mwyn anog y cymry ifaingc iddarllen yn lle chwareu a thyngu a rhegi wrth chwara Tenis a chaelys a choitie, Ewch ir Eglwys fore a hwyr darllenwch y llyfr hwn ich difyrru ar o'l hynny dyna ddymuniad y gwr ai gwnaeth er mwyn i chwi wneud hynny ſef Tomas Williams

Tal y bont. 1760

anwyl ddarllenydd yſtyriol cywraint wedi imi lwyr flino yn caſgly Haneſion or cynfyd yn fy Ifientyd ar amryw feſyre cerdd ag ar draethod mewn cynganedd drwſgwl, meddyliais yn fy henaint am gaſglu hyn o Lyfran bychan mewn ffordd iw ddarllen, yn lle Canu, gan feddwl yn fy Nattur yn ddeuddeg Mlwydd a thrigian oedran.

fod Eraill fel fina yn well ganthynt ddarllen na chanu, felly rwi yn gobeithyo y derbyniwch fy ewillys da, am caredigol ſerch yn fy henaint cyn fy nghymeryd i bridd hynfanau ſef gomitere at y Tadau ar mamau canys gwelodd yn dda fy ngadal yn Beth yn y Byd nar oedran gyphredin A Benododd Moſes i fowyd dyn am fina yn gwelad henaint a gwendid yn llithro arnaf Ac yn rhoi dyfyn beunydd imi ymbartoi Erbyn nghyfnewidiad, mi feddyliais Pa rodd neu arwydd adawn om Cariad ar fy ol im Cyd frodyr anwyl ſef y Cymru ac i holl ddynol ryw a chwenycha ddyſgu a darllen cymraeg canys i mae yr Iaith Gomeraeg yn hynech nar Iaith Heberaeg o Gant a deugain a phedair 144 flwyddi, canys Roedd Gomer Tadogaeth gomeraeg yn hynach na Heber Tadmaeth yr Hebreaeg o gant a deugain a

ph

air o flwyddi Gen. 10. 14. ymofynwch yn awr am y dyddiau gynt, ar dydd y creawdd Duw ddyn ar y ddaear a Glybu Pobl lais Duw gofynwch ir oeſoedd gynt, chwiliwch i hiachau hwynt ai henafiad yſtyriwch yn ddyfal Pa fodd y gwaſanaethodd pobl Dduw gynt trefnwyd uddynt fynegi hynny drwy air ac ſgrifen ir cenhedloedd oedd i ddyfod ar i hol hwynt a hynny iw deuſyfiad eich ufydd ach ffyddlon waſaneuthwr hyd Ange ai weddi droſoch

Thomas, Williams.
merchant Taylor, Tal y Bont
Neſa i fangor fawr Yngwynedd

Gorchymyn yr Awdwr ir Llyfr a Chyngor ir Darllenwyr at Gwrandawyr.

DOs Agorian troead trwedd, Agor
Dda ddorau trygaredd,
Dringa yſgol ddi oſgedd Gen. 28. 12.
Elwybra Camre hwylſa hedd

2 Dos Agoriad Datotiad Dedwydd
Agor. ſynegied Netoledd,
Enos gynes Bore ganedd
A Ser Duw Siwr da wedd

3 Agorais Eglurais glaer ola
Waith Duw y Creawdwr Cin Adda
Wrth Lyfra Moſes Ddownŷs Ddâ
A Llyfr Heſg Sownd o Alexandria,

4 Cedwch fy nghyd frodŷr frydan
Orchmynion, yr Alpha Santeiddlan
Ewch ir Eglwys iawn ar-oglan
Gweddiwch a llenwch y llan

5 Cedwch Sabothau doethau Dawn
y Drindod, un ſylwedd Perpheiddlawn
Gochelwch Goitio downſio'n ddiddawn
na thenis a chaelus anghyflawn

6 Gelwch ar Dduw yn gyflawn
Mewn Gweddi ddiffuant Berpheiddlawn
Y Bore a hâner dyddia dawn
A nosweithia Phraetha yn Phrwythlawn

7 Myfyriwch erlyniwch ar linia
Cŷd godwch, eich Dwylo fel Seintia
Rhowch eich Pwys yn ddwys dda
Ar Eryniawdwr ein heneidia

8 Cofiwch i gynghorion Cywiredd
Tra fŷ ar y Ddaear atluniedd
Gweddio a madde roedd ê'n rhwŷddedd
Iw Elynion Croeſhoelion Cras hêdd

9 Cofiwn er mwyn y Cyſſion, gadw
I Saboth Santaiddlon
Pryd y Cododd Anrhydedd rhadlon
oi fedd ai friw dan i fron

10 Cofiwch I Orchmynion mwynaidd
Dros ddeigian, o ddyddia'r Ior Santaidd
Cin Derchafŷ ir Nefodd Nafaidd
An gwadd nina iw Breiddia braidd

11 Codwn mordwywn o'r Dom. Gochelwn
Rhag ſŷddo yn Llŷn Sodom
Awn Drwy Ninife fiwr ddi Som
Canaan Nefol dda gopha gaphom — Eſau 54 11

12 Yno Cawn wiſgoedd gwnion ganad
Coranau Aur gorau goreurad Dat. Ioan 21. 2. v
Sardonix Sardus Berl rhâd
A Thoppas yn Ninas Dragwyddoliad Amen

TERFYN

Yn y dechreuad yr oedd y Gair a Duw y Tad ar Mab ar Yſbryd Glan, ſef y Drindod; ſantaidd fendigedig oedd y Gair, Ac yn gynta hwy a wnaethant y Nefoedd, ar Angylion. Gerubiad ar Seraphiad Gen. 1. pſalm 136. 5 yn bur Wenidogion uddynt. fel Tan fflamllyd pſalm. 104. 4. I deithio Trwy y Gwagle ar Tywyllwch mawr, ond darfy rai or Angylion falchio gan An-ufuddhau ir creawdwr. Santaidd a gadel i trigſa gan i Tybiad i hinain yn gyſtal a Duw, ac an ufyddhau ir creawdwr gan ddywedyd mi ddringwn i fyny a thebig y fyddwn ir Goru-

ch.f

goruchaf ond am i Balchder ai rhyſyg Taflodd y Drindod Santaidd hwynt ir Gwaelodion, Iob 4. 18. Eſau. 14. 12. 13. 14. 15 16. 2. Peder. 2. 4. Iudas. 6.

Syrthiaſant fel Melltan ne Bellan danllud i lawr or Nefoedd a dyna ddechreuad yſbrydion drwg ac Uffern ai Cythreiliad. a Duw a wnaeth Ffurfafan y Nefoedd a dwr or tu ucha ir Ffurfafan a dwr hefyd or Tu iſa, gorchymynodd Duw ir dwr Iſa ymgynill ynghyd ac ir daear oedd Duw wedi gwneuthur, fod yn ſuch ymddangos; ir ffurfafen ſef y Nefoedd wahanu rhwng y ddau ddwr mawr hynny ar Glob oedd aflyniaidd a gwag a thywyll, ond Gwnaeth y Drindod ſantaidd ddau o oleuad mawrion y Goleuaf o honynt a alwodd i lywodraethu'r dydd ar lleia i lywodraethu y Nos hefo'r ſer, gen. 1 i gid a Duw a ordeiniodd Ir ddaear egino pob gwellt' a llyſiau a choedudd i ddwyn ffrwythudd a Duw a wnaeth Byſgod bob rhywogaeth yn y moroedd ar afonydd, Duw hefyd a wnaeth yr adar ſef ehediad gwylltion agwar Bob rhywogaeth yna gwelodd Duw'n dda wneud anifeiliaid ac ymlciſiad o bob Rhywogath Roedd y creawdwr wedi Ordeinio ffrwythydd ar y ddaear uddynt yn ymborth a hyn oll oedd Duw wedi ordeinio ai wneuthyr erbyn y pumed dydd ag yno y drindod ſantaidd a ddywed

ddywedodd gwnawn ddyn ar ein delw ein hunain, a Bydded ſigail ar yr anifeiliad a phob ymliſciad y ddaear Rhag ir Rhai cryſion ſglyſaethu a lladd y gweiniad,
a Duw a ordeiniodd ir holl anifeiliad Sgrybliad ar ymliſgiad ac i ehediad y ffyrſafen ddyfod oll ynghyd ger bron y dyn, ac efe a erchodd ir dyn Roddi henwau ar nynt oll, ac felly daeth y llew y Blaidd ar Arth ar oen ar cwbwl oll or creadiriad yn addfwyn a llywaeth a Rhadlon ar dyn ai henwodd hwynt oll rhaid ini ddallt fod hynny o hawddgarwch cyn dechrauad Pechodau dynion, Wedi ir holl greadiriad fel hyn dderbyn i henwau, Ni welodd Duw yn i

mysg

myſg'r un gymhares a fydda yn Gymwus ymgeledd i Adda ac am hynny y creawdwr a roddodd gwſg ar y dyn ac efe a dynnodd un oi aſſenau gan gau'r cnawd yn i lle a gwneud yr aſſen yn Ferch Brydweddol ai goſod ar gyfer wyneb Adda cin i ddeffro fo oi gwſg, gan wedi henwi'r holl greadiriad eraill or blaen efe a feddyliodd fod wllys y creawdwr ar iddo henwi'r forwyn honno hefyd ac efe a ddywedodd hon weithan ſydd aſgwrn om heſgurn i henw hon ſydd gwraig canys eber ef o Wr y cymerwyd hi, fel hyn y gorphenodd Duw i waith ar chweched dydd oedd ar ddarfod, felly Duw a orchmynodd i Adda gymerud Saith Hwrdda Saith Fyſtach ai lladd a thynny y crwyn a gwneud dwy allor ai haberthu hwynt ar y Seithfed dydd, a gorphwyſodd yr Arglwydd oddiwrth i holl Waith, Eſau. 58. 13. ac fe ordeiniodd i ddynol Ryw hynny yn Gyfamod tragywyddol tros fyth, Wrth y meſur Santaidd hwnnw bob'n Saith y mae cyfri y Duwdod Fendigedig'n Sefyll, ac wrth y meſur hwnnw y cyfrifir dyddiau a Noſweithiau Wythnoſau a Miſoedd a Blynyddoedd, a Duw a Blanodd Ardd ac ai Galwodd hi Edan ſef Paradwys y Berllan Santaidd lle'r roedd Gan y Goruchaf ddeg o goed afale ac fe a Roddes adda ac Efa yn y Berllan hono ſef Paradwys iw chadw hi ac fe Orch mynodd uddynt gymeryd a bwyta o ffrwyth naw o Breniau'r Ardd yn fwyd ac na chyfyrddant ar egſad na ffrofi dim oi ffrwyth dan Boen Coſb a Marwolaſth dy wedaſon hwythau Gwnan nhw hynny gan ofni yr Helion Santaidd ſef y Goruchaf yn ei calonau ond daeth un or Angylion cythreilig a daſlaſa Duw i lawr or nefoedd. Iob. 4. 18. 2. Peder. 2. 4. Iudas. 6. fel cymydog cariadus at EFa Ir Ardd ſef Paradwys, ac a ddechreuodd i holi yn fwyn wenheithgar pa fodd r'oedd hi yn byw, ac ynta yn euddigus ynddo hunan wrth welad mor hyfryd oedd I lle hwynt ac a ofynodd i EFa beth oedd i Bwyd hwynt, ac EFa ai hatebodd gan ddywedyd mae digon o Gnwd ar breniau'r Ardd ac mi gawn fwyta oi ffrwyth oll ond or Pren Sydd ynghanol'r Ardd, Gorchmynodd Duw ini na ffrofan oi phrwyth ac na chyfyrddau ac ef rhag ein meirw neu yn troi allan or Ardd.

Ynna Satan a ddywedodd ni byddwch Feirw ddim ond chwi gewch eich Gwelad eich hunain mae noethion ydech (canys noethion oeddynt ac heb Gywilydd arnynt oblegid di bechod oeddynt A Satan oedd yn bechadur melldigedig) ac fo a ddywedodd wrth Efa mae Afala y Pren hwn yn Beraidd odiaeth ac Iachus a dymunol a lleſol fel y Gwubyddoch megis diwiau ragor rhwng da a drwg, A Satan a newidiodd i wedd ar lyn Sarph ac a ymliſgodd at yr Afala ac fo ddaeth ac un yn I Big i Efa gan ddywedyd cymer a doro ith Wr A Bwydewch, nid Rhaid i Dduw mor grafyn am cinlleiad ac un afal, ac yno y Wraig wirion a gymerth ac a Fwytaes ac hi a roddes, iw Gwr, ac ar ol yddynt fwyta hwy a edrychaſant ar i gilydd ac a welſant wrth graffu a deuallaſant gyngor y Sarph a ddywedaſe mae noethion oeddynt ac yno cododd arnynt ofn mawr a mynd i ymgyddio a wnaethent I fuſg Preniau yr Ardd a than i cyſgod rhag Gwres Gan Gymeryd dail oddi-ar y phuguſbren i

gyddio ei gwarth ai noethni a phan welodd Duw yn dda efe a ddaeth ir Ardd megis ar ddechreuad y Wawr ddydd ac efe a alwodd ar adda, ac Adda ac Efa oedd yn ymgyddio mewn arſwyd ac ofn mawr a dychryn, er hynny fo atebodd ir creawdwr gan ddywedyd dy Lais a glywais ac a ymgyddiais canys noeth ydwyſ,
aDuw a ddywedodd wrth Adda di a wneiſt yn ddrwg iawn itti ac ith hepil am gymryd gan y Sarph a thori ſy ngorchymyn y roeſwn i arnat ac ar dy Wraig, am hynny ni chei fod yn warcheidwad yma ddim Rhag Llaw, a Duw a felldithiodd y Sarph ſef Satan felltigedig a phob lle ar y ddaear yr

ele Satan I fod arno yn Felltigedig o hynny allan, a Duw wnaeth i adda ac i Efa ddillad o Grwyn yr anifeiliad y Rhai yr Rhoddaſe Duw orchymyn i adda iw lladd ai haberthu ar Bob Seithfed Dydd, ac yno adda

a ail henwodd i Wraig Efa, Gen. 3. 20. ac yno y Drindod Santaidd a ddywedodd am y dyn i fod ynta megis un o honynt hwy ac rhag iddo yſtyn i law at Bren y Bywyd Bwyta a byw yn Dragywydd Gen. 3. 22. felly dywedodd y Drindod Santaidd edrychwn weithan canys y mae'r dyn yn gwybod da a drwg ac os cymer o phrwyth pren y Bywyd geiff fyw yn dragywydd ac rhag uddynt wneud hynny'

Duw ai hanfonodd hwynt ſef adda ac Efa allan o Baradwys Ir glyn Hebron.

ac adda a adnaby Efa i Wraig a hi Feichiogodd ac a Eſgorodd ar Cain, ac with natur ac amſer hi Feichiogodd eil waith ac a Eſgorodd ar abel i frawd, Gen. 4. ac adda oedd arferol wrth orchymyn Duw or dechreuad yn aberthy ir arglwydd ar bob Seithfed dydd a gorphwyſo oddi-wrth i lafyr, felly hefyd'r Roedd efe yn dyſgu iw Feibion, a chain oedd yn llafyrio y ddaear ac abel oedd yn Gwiliadwriaethu y Praidd.

ac ymhen talm o amſer, Duw a alwodd am aberth megis degwm ne offrwm Blynyddawl ganthynt, yna cain a roddodd offrwm o ffrwyth y Ddaear ac megis yn gybyddlud ac nid or gorau ond'n wrthnyſig ac'n anwyllyſgar, ond nid edrychodd Duw ar cain nac ar i ophrwm am nad oedd yn i roddi o ſodd i Galon canys gwydde Duw ſeddwl i Galon, ac yno abel ynta a offrymodd yn aberth ir arglwydd o fiaen phrwyth a bralter y praidd.

a Duw a Edrychodd ar abel ac ar I offrwm, canys tebig ddyſod megis mwg a than or Nefoedd a disgyn ar aberth ac offrwm abel megis y daeth ar aberth Elias ac ar aberth Tad a Mam Samſon, Barnwyr. 13. 19. 1. Bren. 18.

38. pan welodd cain yr arwyddion hynny dehalloedd fod Duw yn mawrygu abel yn fwy nag y fo ac am hynny llidiodd cain yn ddirfawr wrth abel, ac fel y cafodd ef i hun yn y maes a chododd gynen ar abel gan ymladd yn i erbyn ai Ladd ef yn ddirgel

Ond Duw a ofynodd i cain ple mae abel dy frawd, cain atebodd'r arglwydd yn llidowgrwydd a chynddaredd i ddigofaint gan ddywedvd ai ceidwad fy Mrawd ydwyf i, a dicllonedd Duw a Enynodd yn ddirfawr yn Erbyn cain wrthryfelgar fel y melltithiodd'r arglwydd y fe, ond cain a ddywedodd riw rith o edifeirwch gan

gypheſu

Gyffeſu mae mwy oedd i anwiredd ef nag y gellid i faddeu a phwy bynneg ai cae efe ai lladde ef, ond Duw a drugarhaodd wrth cain ac a roddes nod arno, a chyfnewidiad ar i liw rhag i neb i ladd ef.

canys nid ydi Duw yn chwenych y marwolaeth un Pechadur a Edifarhao ac a drotho oddiwrth i ddrygioni a rhoi i lawn fryd ai weddi ar Dduw am Ras a bendith a maddeuant am i gam weithredoedd or blaen.

ac yno Gyrodd Duw cain i ffordd oddiwrth i Dad ai Fam, i dir Nod or Tu dwyrain i Ardd Eden y Cerubiad. Gen. 4. 13.

ond o achos drygioni cain dywe-

dodd

dywedodd Adda y Bydda ddrygioni mawr ar y Ddaear o achos Efa, ac na byddo iddo a wnae ac y hi, felly priſiodd anghydfod ac ymrafel mawr Rhwng Adda ac Efa yn yſbaid naw Mlynedd arhugain a chant.

fe ddyſyd rhai mae Efa aeth y pryd hynny ar ol i Mab cain canys darllenir yn Gen. 4. 17. 18. 19. ddarfod i cain adnabod gwraig ai beichiogi ac Eſgor o honi ar Fab a galwaſant i Enw ef Enoc.

A chain a adeiliadodd ddinas ac ai galwodd hi ar henw i Fab Enoc ſef i fab hynaf canys nid oedd mor cyfri ar aeriaeth ond ir Mab hynaf ac er galw yr adeilad hono yn ddinas neu noddſa nid alle fod ond bechan y pryd hynny, yno Henoch a genhedlodd Iarad a Iarad a genhedlodd Mehuiel a Mehuiel a genhedlodd Methuſal a methuſal a genhedlodd Lamech a chymerodd Lamech iddo ddwy o Wragedd ſef Ada a Sila.

ac Ada a Eſgorodd ar Iabal ac eilwaith hi eſgorodd ar i Frawd ef Iubal, a Sila a Eſgorodd ar Thubel cain ac mae yn gyffelib mae cain oedd Tad hwnw ac os hapiodd Tad iw Fam ef Sila, cays darllenir yn Gen. 19. 31. 32. 33. 34. nid oes yn Llyfra Moſes henwi yn Eglur ond dyna am lot ai Ferched gyfflybieth I cain ai heppil a Reuben am wely i Dad, ac nid oedd Efa ddim pellach na nes carenydd i cain nac oedd Lot iw Ferched, neu Reuben i wraig i dad Iacob y di Sodlwr ſef Iſrael'r ymdrechwr Gen. 49. 4. canys ymdrechodd Iacob ar Angel cin iddo gael'r alwedigaeth ai alw yn Iſrael Gen. 19. 4. nid oedd mor garenydd ar gyfathrach yn waharddedig Iawn doriad y Gyfraeth hyd na ddaeth gwas y Doctor gamaliel ſef yr Apoſtol Sanct Paul trwy orchymyn ein Harglwydd Ieſu Griſt I gynghori y Bobol, 1. Corinth. 5. 1.

ac felly gwnawn ein gora ar gadw Gorchymyn Criſt a gwneuthur cyngor I holl weiſion Santaidd ef.

yn awr i fynd ymlaen etto at lamech a ddywedodd wrth i wragedd ſef ada,
a Sila mi leddis ac archollis wr a llangc, os cain a ddielir ſaith waith yna Lamech a ddielir Saith ddengwaith Saith waith, Gen. 4.

Gadawaf ar hyn'r awron am haneſion Meibion a Merched dynion ac mi af hyd eitha fy ngallu i chwilio am hen foncyffion a ail flagurodd allan ac a genhedloedd Blant Duw, Rhufeiniad. 8. 14.
mae'r dyſgawdwr yn dywedyd ddarfod i Adda, ac Efa, gyfarfod i gilydd ar Fynydd yn Arabia ſef Mynydd ararat lle mae'r Hanes mewn llyfr a elwir caſeTeer, or

News mans Interpreters, Page, a darfod i Adda ac Eſa ail gyd uno ai gilydd ac wrth Ewyllys Duw Adda a adnabu Eſa a hi a feichiogodd ac a Eſgorodd ar fab a galwaſant i Enw ef Seth yn amſer oed y Byd.

130. Cant a deg ar higian o Flynyddodd ar ol i cain ladd Abel a dywedodd Eſa goſododd Duw imi had arall am i cain fod mor ddrygionus a lladd abel, Gen. 4.

ar Seth hwnnw oedd dechreuad cenhedlaethau Plant Duw, Rhufeiniad. 8. 14. ganwyd Seth yn amſer oed y Byd can a deg ar igain o Flynyddoedd, Gen. 5. 3. Mab i Adda ſef un cnawd oedd

Seth ond Enos oedd y cynta or nawfed Radd ſef wyr i Adda ganwyd ef yn amſer oed y Byd. 234.

yr Enos hwnnw a ddywedir fod gantho awenydd i ganu caniad a mawl i Dduw gynta ar y Ddaear. ond gellwn ddeuall fod Angylion, cerubiad Seraphiad'n canu yn y Ffurfafen y Nefoedd, ar Ser yn cyd ganu pan orfoleddodd Meibion Duw.

Iob. 38. 7. cenan ſef gorwyr i adda ar ail radd ganwyd ef yn amſer oed y Byd. 325. Gen. 5. 9. mahaleel ſef goreſgynydd i adda ar drydydd Radd ganwyd ef yn amſer oed y Byd 394. Ierad ſef geuſun i adda, ar bedweredd radd ganwyd ef yn y flwyddyn o amſer oed y Byd 460. Henoch ſef gorcheuſun adda ar bumed radd fe ai ganwyd yn y flwyddyn oedran y Byd.

622. Gen. 5. 18. ar Henoch hwnw oedd was daearol a ffyddlon yn gwaſaneuthu Duw ac yn cael Rhodio gida Duw. a gwelodd y creawdwr Santaidd yn dda i gymeryd ef at i weiſion Santaidd cin archwaethu marwolaeth arno yn, 365.

blwydd oi oedran, ac ni welodd dynion mono ar y Ddaear wedi, ond roedd ef wedi cenhedlu meibion a Merched, Ganwyd Methuſela ſef mab hyna Henoch pan oedd Henoch yn. 65. oedran ac yn amſer oed y Byd 687. Gen. 5. 21. hwnnw oedd y. 7. Radd ſef Gwſtyn i Adda, mae'r Dyſgawdwyr yn dywedyd fod aſmodau ſef Diawl yr anlladrwydd heb dyfy a gwreiddio yn lwynau dynion mor gynar or Byd ar amſer hwnw ac roedd plant Duw yn ofni'r Arglwydd, ac yn galw ar Enw'r Arglwydd er dechreuad Enos Gen. 4.

Ganwyd Lamech ſef'r. 8. radd a gorchwſtin I Adda yn y flwyddyn oed y Byd. 874. Gen. 5. 25.
Ganwyd Noah ſef y nawfed 9. Radd ar car addig neu yr car clud i Adda, ynghylch amſer oed ẏ Byd 1056.
Ganwyd Iapheth mab hyna Noah

yn amſer oed y Byd. 1556.

Ganwyd Sem. ail Mab Noah yn amſer oed y Byd. 1558.

Ganwyd Ham ynghylch amſer oed y Byd. 1560, Wedi imi ddangos fel hyn amſer genedigaeth tri ar ddeg or hen Dadau Gen. 5. 29. 30. 31. 32.

ſef y Rhai hynaf yn ol i graeddau hyd at y Dwr Diluw. Yn awr mi drof yn o'l i ddangos am oed y Byd ai hoedran nhwythau pan fu ant feirw ſef y naw penadur y ſy feirw cyn y Diluw ond Henoch a gymerth Duw atto cyn archaethu marwolaeth nag Angau gynta i Adda yr hwn a greodd Duw yn nechreuad y Byd.

fe fu farw yn oed y Byd 930. 2.

oedd Seth ſe ſy farw'n. 912. ag'n
amſer oed y Byd 942.
3. oedd Enos ſe ſy farw yn. 905
ac yn amſer oed y Byd. 1139.
4. oedd Canan ſe ſy farw yn. 910
ac yn amſer oed y Byd. 1275.
5. Mahaleel fu farw yn 895, yn
amſer oed y Byd. 1289.
6. Ierad fu farw yn 963. yn amſer
oed y byd, 1354.
7. Henoch a gymerth Duw yn
365. ac'n amſer oed y byd 0987.

8. Methuſelah fu farw yn 969. ac
yn amſer oed y byd 1556.
Lamech fu farw yn 777, oedran
ac yn amſer oed y byd 1651.
a dywedodd Lamech pan anwyd
Noah, hwn an cyſura ni am ein
gwaith

gwaith a llafur ein dwylo o herwudd y ddaear'r hon a felldigodd yr Arglwydd o achos y Sarph ac o achos cain ai thrigolion'n gwelwch mor agos oedd diwedd'r hen Fyd ſef mewn Pum mlynedd ar o'l marw Tad Noah ond gwydde y Duwiolion a henwais uchod cyn i meirw fod deſtrowiad y byd'n neſhau, canys amel oedd ei pechodau ar y ddaear ac wrth i bod yn cael cyd oes gan y Creawdwr Santaidd, yna pan aeth dynion mor amel wrth fyw cyn hirad o flynyddoedd ai bod yn gymyſc Meibion a Merched ac mor wreſóg I naturiaeth ſef rhai o heppil y rhai Duwiolaf o blant Dnw.

a dwad hefyd almodau iw Plith

ac iw

Twyllo, ac os happiodd hefyd rai o heppil cain ſef Merched plant dynion oedd dan y Felldith er hynny gallent fod yn brydweddol fel merched Heth ſef wyreſod Ham a Felldithiaſa Noah.

ond pa fodd bynag gwelodd plant Duw ferched dynnion mae glan foddger a thirion oeddynt ar byd yn rhydd i bawb wrth Serch i naturiaeth Gen. 6. i gid cymeraſant wragedd wrth feddwl i Calonau a llanwaſant y byd a phob drygioni ymhob moddion gan ollwng Duw yn ango ar hen dadau Santaidd diwiol ſef Seth ac Enos a Henoch Santaidd'r hwn a gymeraſe Duw atto'n i ſywyd ai Iechyd heb archwaethu marwolaeth, gan dde-

ddownaeth rhai o honynt, ac a wnaethant ddwy o golofnau mawrion un o bridd-feini ar llall o bres coethedig ſef toddedig canys gwyddant drwy yſprydion drwg fod diwedd a diniſter'n neſhau ond nis gwyddent pa'r un ai dwr ai Tan a yra Duw am i penau, ond deuhallaſant os dwr a ddeua na bydda'r golofn bres ddim yn waeth ac os Tan a yra Duw arnynt na bydda'r golofn bridd-feini hithau ddim gwaeth.

a hwy a roeſent'r holl gelfyddydau ar holl gyfrwyddyd oedd ganthynt y pryd hynny er Adda yn dda ac'n ddrwg meddaf rhoeſant y cwbwl oll ar y colofnau hynny fel i gilydd'r Hanes a ddarllenir

am

ddechra yn Adda, Seth, Enos Cenan mahaleel Ieiad methuſelah Henoch a Lamech a Noah, yrrhain oedd yn Prophwydo am ddeſtrowiad y byd, cawri oedd y rhai heppil ygionus a hepliwyd ar ol pryd ynny y rheini a ofydiodd Galon'r hollalluog, ac nid oedd wiw Ir Duwiolion moi cynghori, a bu edifar gan y creawdwr wneud o hono ddynion ar y ddaear, ar Arglwydd a edrychodd i lawr or Nefoedd ar feibion dynion i edrych oedd neb deuhallus'n ymgeiſio a Duw ciliaſa pawb oddiwrth gynghorion plant y goleuni ac nid oedd dyn ar y ddaear a wnae ddaioni nag oedd un Pſalm. 53. 2. 3. ond Noah a gafodd dru drugaredd a chynghorion gan Dduw i wneud Arch megis llong iw ſafio ef ai wraig ai dri meibion ai Gwragedd.

a dau o bob creaduriad oedd ar y ddaear, gan i hachub rhag boddi pan rodde Duw ddwr i foddi y ddaear, Gen. 6. i gid. II. Pedr. 4. 5 bu Noah gant ac ugain mlynedd yn gweithio yr arch ac yn cynghori a phregethu cyfiawnder ir bobol, a hwythau oll ai calonau'n gledion ac yn anedifeiriol cynrhwg ac y bu'n'r ail fyd bobol Sodoma a Gamora, canys er i Noah i cynghori ai rhybuddio dros chwe ugain mlynedd etto roeddent hwy yn angrhedadwy am i diweddiad, ac er hynny ofni a wyn Llyfr Due Bartes'r hwn a gyfieithiodd ſulfeſter ſais or Hebrew ar Groeg ir Saeſneg.

a Duw a ddywedodd wrth Noah dileaf ddyn'r hwn a Greais yr Anifeiliad'r ymliſgiad a phob peth Byw oddiar wyneb y ddaear canys mae yn edifar genifi gwneuthyr hwynt, Gen. 6. 7. ar Arglwudd a ddywedodd ac orchymynodd i Noah wneud'r arch yn Gellodd i gadw pob Rywogaeth bob yn ddau ynddynt, canys nid oeddynt mor llonydd y pryd hwnnw ac yr oeddynt pan ordeiniaſa Duw nhw at adda iw henwi cin dechreuad pechod.

felly Duw ai gyrodd hwynt bob'n ddau, a Noah ai derbyniodd gan

i

i rhoi ynghellodd'r arch. Felly Noah ai Wraig ai Feibion a Gwragedd i Feibion ſef wyth o rifedi a aethant ir Arch ai Llyfra llechi ac ai llyfra Heſg llydain ac ai llyfra Crwyn wedi trefnu ai Sgrifeny arnynt, ar lliniaeth oedd Duw wedi orchymyn uddunt hefo hwynt Ir arch a diwedd pob peth oedd wedi neſhau, a Duw a gaeodd arnynt yn'r Arch mae dyſgawdwyr yn dywedyd mae ar y dydd Saboth yr oedd dechreuad y Dwr Diluw.

ar Arglwydd a egorodd Ffeneſtri y Nefoedd fel y daeth y Dwr oedd or tu ucha ir Ffurfafen I lawr at y Dwr oedd or tu iſa ir

fur-

Ffurfafan, ac a Barhaoedd i fwrw ynghylch deugain Niwrnod a deugain nos Gen. 7. 4. fellu daeth y dwr yn'r ail mis ar 'reilfed dydd ar bymtheg or mis, yn amſer oed y Byd 1656.

Felly am Bechodau dynion Trwy fod yr hen Sarph ai heppil wradwyddys yn hudo'r cnawd gwan, darfy am holl ddynol riw o Adda hyd at Noah ai Feibion, gweddiwn ninau'r rhai ydym alodau'r ail Adda.

Yſbrydol, a chadw Saboth Santaidd ein Harglwydd Ieſu Griſt'r hwn an Prynodd ai Werthfawr waed a gatwo ein cyrph an heneidia i Fywyd Tragywydol Amen

Terfyn

Fy anwyl gyd frodyr llythrenog ar gwrandawyr yſtyriol dihynwch a gwelwch fy ngharedigol Serch am hewllyſgarwch yn caſglu hyny baliodd cin y dwr Diluw am haneſion'r hen Fyd ar hir oeſoedd yn y cynfyd yn orau ag y medris chwilio a darllen amriw Lyfra gida Llyfra Moſes ar Prophwidi a Llyfr y cyfamod newydd.

Weithan rwi yn deuſyf cenad y gwyr urddraſol dyſgedig a Ffarchedig ac hefyd yr holl ddarllenwyr yſtyriol na welo neb fai arnaf am roddi y molianus adroddiad hwn I Dduw, ſydd yn canlyn a Sgrifenais allan or Llyfr Gweddi Cyffredin ſef y comon Prayer yr hwn ſydd yn gadarnwch di ſigil im gwaith yn lleſaru am ddatgiddi ad creadigaeth y Neſoedd ar Angylion y cerubiad ar Seraphiad ac am gor Neſol a daearol fel y canlyn

---

GWEDDI

TI Dduw a folwn; ti a gydnabyddwn yn Arglwydd

Yr holl ddaiar a'th fawl di y Tad tragywyddawl. arnat ti a lleſa yr holl angylion; y Neſoedd a' holl nerthoedd o'i mewn.

arnat ti a lleſa cherubin a Seraphin a lleſerydd ddibaid. Sant, Sant, Sant; Arglwydd Dduw Saboth. Neſoedd a daiar ſydd yn llawn o'th ogoniant. Gogoneddus gor yr apoſtolion: a'th fawl di,

Molianus nifer y Prophwydi; a'th fawl di.

ardderchog lu y Merthyri: a'th fawl di. Yr Eglwys lan trwy'r holl Fyd; a'th addef di, Y Tad o anfeidrawl fawredd.

Dy anrhydeddus wir; ac unic Fab, hefyd yr Yſbryd glan: y diddanwr

Ti criſt yw Brenin y gogoniant.

Ti yw tragywyddol Fab y Tad.

Pan gymeraiſt arnat waredu dyn; ni ddiyſtyraiſt fru y wyryf.

Pan orchfygaiſt holl nerth angeu, yr agoraiſt deyrnas nef i bawb a gredant,

Ti ſydd yn eiſtedd ar ddeheu-law Duw, yngogoniant y Tad, Yr ym ni yn credu mae tydi a ddaw yn farn- wr arnom gan hynny yr attolygwn iti gynnorthwyo dy weiſion, y rhai a brynaiſt a'th werthfawr waed,

par iddynt gael eu cyfrif gyda'th Sainct yn y gogoniant tragywyddol Arglwydd cadw dy bobl: a bendithia dy etifeddiaeth,

Llywodraetha hwy; a derchafa hwy yn dragywydd,

beunydd ac fyth a clodforwn dydi ac anrhydeddwn dy enw byth ac yn oes oeſoedd Teilynga Arglwydd; ein cadw y dydd hwn yn ddi bechod, arglwyd Trugarha wtrhym; trugarha wrthym.

Arglwydd dy drugaredd a ddel arnom Megis yr ym yn umddiried ynot arglwydd ynor ymddiriedwn na'm gwardwydder yn dragowydd

AMEN

ACORIADAY

DATCIDDIAD. AM YR AIL FYWOLIAETH

AROL Y DWR DILUW

Exodus 19. 9 v, Duter. 4. 32

Ymoaſynwch yn awr am y dyddiau Gynt, ar dydd y Creawdd Duw Ddyn Ar y Ddaear, a glybu Pobol lais Duw, gaſynwch ir Oeſodd gynt Exod. 19. 9, v: Duter: 4. 32; Iob 42, 5 chwiliwch i hiachau hwynt ai henafiad yſtyriwch yn ddyfal pa ſodd y Gwaſnaethodd Pobol Dduw gynt; trefnwyd yddynt ſynegi hynny drwy air Sgrifen ir Cenhedloedd Oedd i ddyſod ar i hol, ac yr oed d 'rhen Baganiad yn Sgrifeny yn

Llyfrau heſg llydain ac ar Dablentau mawrion ac yn i llyfrau Cwryn yr holl Yſtoriau cowyr or peth a Ddigwydda yn i plith hwynt, Ac oni bau hynny gida chwilio amriw fanau hyd y Byd ni baſe mor wybodaeth yn ein muſg ni mor helaeth ac ydiw: Rhaid ini gydnabod mae allan or Arch efo Noah ai Feibion y daeth, r wybodaeth ar Haneſion ſy yn ein Llyfrau ni' ſef i dedirenad canys roedd Noah yn chwechchan a ddwy Flynedd arbymtheg a deugian Oedran pan ddaeth ef allan or Arch efo ifeibion ar ol y Dwr Diluw, ac roedd Iaphath ynghylch cant, a Sem yn ddaunaw a Ffedwar ugain, a Ham ynghylch unarbymtheg a phedwar ugain dyna i Hoedran pan y Daethant or Arch ar ol y Dwr Diluw ac oll mewn deuall ac ofn Duw ac yno Noah ai feibion a deiladodd Allor ir Arglwydd ac a Gymerodd o bob Amſel glan ac o bob Cor Aſgellog ſef or Ehediad Glan ac efe a ophrymodd boeth Offymau ar yr Allor, efo i Wraig hwy a ymoſtyngaſent gerbron yr Arglwydd gan ddiolch am i rhyddhad or Flwyddyn gaethiwad y Baſen yn yr Arch, Ge. 9. 20. Ex: 17. 15. Ez 24, 4,

Ac felly Iaphath ai Wraig a Sem ia Waraig ac Ham ai Wraig oll ynghyd a gud a Berthaſant yn Oſtyngedig ac a Addolaſaſnt oll gerbron yr Arglwydd ac mae yn gyphelib mae y dyddſaboth oedd hynny, Ac yn y dydd neſa gorch mynodd Noah iw feibion fynd i drin y ddaear Ac ynta a aeth i blany gwinllan Canys yroedd ef yn gwelad y bydda eiſia lliniath arno ef ai Deuluodd Canys yr oedd gwragedd i feibion ef yn at dyny Eſgor Ac i Iaphath i fab hynaf y ganed Ac i Iaſphath fod hyna Noah i ganwd ſaith ofeibion ynghylch amſer oed y Bud fel y mae yma y cynta oedd gomer fab Iapheth ganwyd ef yn y blwyddyn o oedran y Bud Gen 10 1772

yr Ail mab oedd magog ganwyd ef - - - 1772

y Trydydd mab oe madoi

ganwyd ef 1773 y pedwerudd mabpedd Iaphen ganwyd ef 1775 y Pymed mab oedd Tabal ganwyd ef 1776 y chwechad mab i Iaphath oedd melach ganwyd ef 1777 y ſeithfed mab oedd Thiras ganwud ef MDCCLXVIII or ſaith hyn ac o lwuth llam ſab Noah y daeth y Cenhedloedd allan ac o lwyth ſem fab Noah y daeth yr Iſraeiliad allan, Meibion ſem oedd Elam yr 2 Oedd alur y 3 Oedd Araphaxed. y 4 oedd lud ar pumed mab ſem oedd Aram meibion Ham fab Noah eodd i Cus ir ail 2. oedd miſraim y 3. mab oedd phut. y pedwerydd oedd Canaan, Cus oedd Tad Nimrodi yr heliwr Cadarn gerbion'r Ar-

Arglwydd yn Coſpi dynnion drygionys ai Gleddyf mawr yn llywo draethu o Babilon gwlad ſuner i derſyny Cananead Mab r Caran oedd ſidon'r 2 mab Oedd Heth twyſog Canaan. dyna dri meibion Noah A rhai oi Heppil

Exodus 17. 15 yn awr Cluſt ym wrandewch a meddyliwch am gadw ſaboth ſantedd y Creawdwr gwelwch fel y gwn gwnaeth noah Allor ir Arglwydd ac yr offrymodd Eburth arm pan ddaeth ef or Arch. ac y mae n gyffelib mae ar y ſaboth yr oedd hynny gen. 9. 20. 21. v. A Duw addawodd nas deſtrowia mo Bob Cnawd fel or blaen y Gwnaethe gweddiwn nin-

ninau a chadwn yn ſantedd bob ſeithfed dydd wrth orchymmyn yr Hollalluog Dduw'r hwn am bechodau dynion drygionys a foddodd i anyfudd weiſion Arholl greaduriad dan y Ffurfafen ondi euthur wuth nyn o Bobol adau o bob Rywogeth o greadiriad eraill, ond oi fawr drugaredd fe addawodd nas deſtrowiaf felly futh drachefn, gan roddi i Fwa yn gyfamod tragwyddol yn y Cwmwl ynghylch Pen y ſaith mlynedd a thrugian arol y dwr dilyw ti o Dduw a gad arnheiſt dy gyfamod hwnw ſef dy fwa ſef 'r Enfus Gen, 9, 13 14' 15 v ïcofio dy gyfamod yn Dragwuddol yn awr awn ymmlaen i wrando'r hanes fel y caſglodd

Noah Ffrwythudd ar i Berllan newydd arol y diluw Ac a waſgodd or grawn win peraidd ac fe yfodd yn helaethach nai ddeuall Canys'r oedd ef wedi myned'n wanach nar dyddiau Cun y diluw yn 'r oeſoedd gynt, ond wrthiydiad ond ,wrth i ſychad i mawr efe a yfodd or Gwin Newydd Cryf ac a feddwodd a chyſgoedd A ymnoethodd ynghanol i Babell A digwyddodd i ham wehewcrus ai fachgen Canaan ynfud ddwad heibio iddo A chwerthaſant am ben i noithni ef, gan wawdio ill deuwedd A mynd wnaethant i fynegi i Iaphath ac i Sem yna'r ddau fab graſlon rheini a ddaethant ynwſg i Cefnau a dillad ac a orchgiddi-

orchgiddiaſant i Tad a phan ddeffrod Noah oi gwſg efe a ddehallodd fel y Gwnaethe Ham i fab a chanaan i wyr ac ef, yna Noah a felldithiodd Ham i fab a chanaan i wyr Gen, 9, 24, 25, v, ond fel y trugarhaodd Duw wrth Cain feddarſu i Dduw feddalhau calon i was ffyddlon Noah wrth rannu'r ddaear i Roddi Rhan o Honi i Ham ac iw Feibion i ddwedyd mae gyweiſion fyddant i weiſion y Brodur a dyna dybugoliath fel y ranodd Noah y ddaear ai orelgynudd Peleg ſef y bedweredd Radd oddiwrth Noah y dyſyd ef Geneſis, 10 25, v, Ac mae'r Dyſgawdwyr'n Dywedyd Ddarfod i Noah roi Europ iw fab Iapheth A rhoi iw Fab ſem'r Inda ac Aſia

Ac i Ham fe roes yr Aipht ag Ethiopia felly y darfu ranu y ddaear tro cynta ac roedd Noah yn faith gant mlynedd oedran Pan Ranoedd ef y ddaear ac fe fu fuw wedi hynny Ddau Gant a haner o flynyddoedd felly holl Ddyddiau Noah oeddynt naw Cant a deg adeigian ac efe fu farw yn y flwyddyn oed y Byd 2006

Ond i droi yn ol arol i Noah ar oreſgynydd Peleg Rhany'r ddaear fe aeth y Bobl ar waſgar bawb i edrych y rhanau hyd y ddaear, a gwelſant dir Braf yngwaſtadedd mamre yngwlad Sinar, A hwy a ddywedaſant wrth igilidd dyma le helaith Prydferth rhown ein Penau ynghud ymgynghorwn a gwnawn ymma ddinas i orſeddu yn-

ys

ynddi, a bydded y Cadarn Nimrod yn bena golygwr Arnom oll, ac felly y cyngor aeth ymlaen, Dwydaſon hefyd gwnawn Gaſtell dwr cadarn ynghanoly Ddinas ai uchdwr hud y Nefodd in hymddiffyn Rhagofn y Daw eto fel y bu gynt Ddwr in Boddi ninau ond nid oedd'r ynfydion yn credu mor addewid ar Cyfamod a ddywedaſe Duw wrth Noah ſef yr Enfys hwnw iw Bwa y cyfamod, ac ni chredaſant ir Drindod Santaidd nac i gyngor Noah nag i neb or rhai Duwiol mwy, nar hen drygolion gynt i noah cin y dwr Diluw ond Partoaent Briddfeini a dylai a gwnaethant ddarn fawr or Ddinas ar Twr nes ir Arglwydd yru ei Angylion ne'r Drindod i hyn ddes gyn i lawr or nefodd a chymyſgu i hiaith fel na ddehallent moi gilidd a ſyny wnaethant Sen. 11. 7 y. gan waſgaru oddi wrth i gilidd yn wahanedig lle y Digwudde i ddau neu Dri ymgyſarfod a Siarad fel y medrant ddallt i gilidd; ſac ail orſeddu ynghyd mae'r pyſgedigion'n dwedyd mae ynddeuddeg a Thrigian o ymadroddion y gwnaeth Duw'r un iaith ac mae yn y flwuddyn o oedran y Byd. 1769.

Y bu hynny, ond yn awr fel yr roedd drygioni yn cael i gynwys ac etto yn rhy amel ſywath rydis yn tybiad mae Ham ai heppil y gafodd lywodraethu i orphen y ddwy fil flynyddodd gyntaf or byd yn ddi gyfraith am hyny rho fy'r olaf ymlaene ſef meibion Ham canys 2006. oedd oed y Byd pan fu farw Noah a mab hyna Ham oedd Cus ſef dechreuad'r Ethopiad miſraim yr ail mab oedd dechreuad'r Aiphtiad ar Ffiliſtiad 3 mab Ham oedd phut ſef dechreuad ymaritaniad y 4 mab i Ham oedd Canaan ſef dechreuad y Canaanead ac wyr i Ham oedd nimrod gadarn fab Cus'r hwn oedd ai derſynai frenhiniath oedd Babel a haner ſodom a gymora meibion ſem oeddynt i Elem dechreuad yr Elamytiad 2 Aſſur oedd Dechreuad y Aſſiriad 3 Arphaxad efe oedd dechreuad y Caldead 4.Lyd efe oedd dechreuad yr ſygythiad, 5. Aram'r hwn oedd dechreuad yr Armeniad, dyna Ha-

Hagur a Henwa Meibion Sem y trydydd mab i Sem oedd Araphaxed a genhedlodd efe pan oedd yn gant oed ddwy flynedd wedi'r Dilyw a Sem fu farw bum Can mlynedd wedi yr Dilyw felly oed Sem oedd 600. Ac fe fu farw yn amſer oed y Byd 2256,

efe a Adeladodd Gaerſelam galwaſant ef yn frenin Salam ac oi weled ef'n buw cud arol y diluw galwaſant ef Brenin cyfiawnder yr hyn iw gyfiauthu ydiw Melchiſedech Brenin Heddwch ag mae efe a ddaethe a Bara a Gwin i gyſarfod Abraham pan faſe yn erlyd Brenhinodd Sodom ond atebaf i nad ef canys bu farw Sem 37. O Flynyddodd cin geni Abraham felly methwud yn hanes y ffydd am Sem ac felly methiwud dangos yn gywyr yn llyfr hanes y Ffydd am Sem, ond i fynd ymlaen eto oddi wrth Araphaxad at ſelah 'r hwn a genhedlodd Heber ſef Tadogath yr iaith Hebraeg ar i Hem ef ag fe ddufyd rhai fod'r henw hwnnw ar Iaith Heber yn hynach na henw Gomer ar'r iaith Gomeraieg ne Gymraeg, fe Anwud Gomer yn y flwyddyn oedran y Byd. 1770.

Ac ni Anwyd mo Heber tan y flwyddyn 194.

felly roedd Gomer yn hynach na Heber-- 144.

I fund ymlaen etto chwiliwn am yr Amſer y ganwyd Abraham ſef Tad y Ffyddloniad a dechreuad Plant Duw yn Feibion y Daran ſef Meibion Marc 3. 17. v.

Taranwr Hollalluog ganwyd Abraham yn flwyddyn oedran y byd 2179. Derbyniodd Abraham addewid Arn Griſt yn.

y Flwyddyn o oed y Byd- 2278.

fe i Anwyd Iob yn flwyddyn oedran y Byd 2400

oedran Iob pan Brophwydodd y genid Meſſia o forwyn yn ninas bethlem yn Naſerath 49.

Pymtheg Cant o flynyddodd cin ge ni ein Iachawdwr Ieſu Griſt y prophwudodd Iob arn dano ond roedd y Patrierch Santedd yn prophwydo arn Meſſia o flaen Iob er bod y rhai a henwais yn wyr ſantedd Diwiol Edrychwn eto yrnuſg y rhai drigionus a gwelwn Mor ſuan yr Arnelhaodd Pechod

ymhith

ymhlith meibion a merchad dynion, yn enwedig yn Sodom a Gamora Segor a ſalome a thre Galdama Gweddiwn ar ein Duw A Gwelwn mor drugarog ydoedd ef pan oedd Abraham yn Eiriol yn daer arno ef dros Sodom nas difetha ef hi ai Myrddiowau drygionys os ceid ynddi ddeg o rai cyfion Gen 18, 32 v.

A Duw oedd yn cofio i Gyfamod a wnaethe ef a Noah ſef na roeu Ddwr i ddifetha Dyn ac o herwydd hynny fe yrodd Duw Dan or Nefodd i Ddeſtrowio Sodom a Gymora ſegor a Saloma a Dinas Galdama gwelwn Mor ddrygionys'r aerhe Pobol fel nad oedd Deg o rai cyfion yn Sodom, ond Lot Ai Wraig ai ddwy ferchad ſef Pedwar Enaid a gafodd rybydd gan Dduw trwy'r Angylion i ffoi ond calon gwraig Lot oedd yn atgas ac Alaethus Am i ffobol oedd yn y Ddinas ac am i bod'n ame Gweithredodd y gwir Dduw, felly hi aeth yn Golefn halan Gen. 16 26. v.

Gellwn ddeuall fod rhai o heppil Japhath a Sem gida Heppil Ham yn y Diniſter hwnw yn Sodem ar Dinaſodd oi chwmpas Gen 10 19. v.

Gwelwn fel y mae Duw yn achub i ufudd weiſion ai blant y rhai ai gwaſſaneuthant ef, ac yn Taflu y rhai drygionus fel yr Angylion drwg i Uffarn Job 4. 18. 1 Pedr. 2. 4 v. Iudas. 6.

v. Gweddiwn ninau yn ddyfal ar Dduw a chadwn i Sabothau wrth i feſyr Nefol Bob yn ſeithfad Dydd, ac aberthwn on Calonau Ebyrth Moliant a Diolchgarwch ac Edifarhawn rhag Ein difetha yn'r un modd; gwelwn fod Lot'n wr ſantedd oi ddechreuad a pheynydd roedd ef yn Parhay felly, er darfod iw ferchad roi Gwin iddo a myned ato ar ol Diniſtro'r bobl yn ſodom canys gwelad yr oeddynt nad oedd'r un mab iddynt iw gael fel y Codant had ac Eppilio Ac nid oedd y Gyfrath y pryd hynny yn Gwahardd chwaith pa gyfathrach a adnabydda i gilidd canys roedd Abraham wedi cymeryd'n Wraig i chwaer ef Sarah oedd hi ai morwyn Hagar Mam

Iſmael hefyd Gwraig i Abraham oedd Cetura a gordderchion hefyd oedd cantho ef. Gen. 2. 5. 6. ac Iſaac oedd i fab ef o wraig rydd yn ol yr addwid gan Dduw trwy'r Angylion pryd y Chwarddodd Sarah ac Abraham a fu farw yn 175. yn oed y Byd 2354 Iſaac oedd Tad Jacob ac Eſau, Jacob a gyfenwyd felly am iddo ddiſodli i frawd Eſau Gen 27 36 ond Iawn y gelwir i Enw ef Jacob canys fe am diſodlodd i y ddwy waith hyn a Jacob a Ymdrechodd ac Angel Duw a phan aeth hi yn doriad dydd Dywedodd 'r Angel gollwng fi ar Angel ofynodd i Jacob beth oedd i henw yntef a ddwedodd Jacob ar

Angel a ddywedodd ui bydd Dy enw di Jacob mwy canys ymdrechaiſt gida Duw fel Tywyſog a gelwir dy Enw di Iſrael ti a ymdrechi gida Dynion ac a orchfygi Gen, 32. 24. &c. ac wyr i Abraham oedd y Gwr Santedd hwnw a thad oeddynta ir Deuddeg Patriarch ſef y rhai a alwud deuddeg Llwyth Iſrael Dewiſiedig Blant Duw oedd y rheini ond pa ſodd bynag y Gwaſaneuthaſant yr Arglwudd'r oedd gan Wragedd Jacob rai Diwiau megis Delwau iw haddoli.

A chan ein bod yn Darllen am y Diwiolion hynny ſef Plant Duw ai yn i Galw y Feibion y Daran Pſalm 104. 7. 81: 7 Pſalm 81: 7

ſeff yr Hollalluog Gwelwn Morſuan y Cyfeiliornaſant y Ehwedſig meibion Ruben ai heppil cynrhwg ar ſodomiad a llawer eraill o dair llin Noah ond yn awr awn i chwilio am Eppil Japheth ac ymmhar gyrau or Ddaear y buont Gud mor Ddiſtaw, ond gwybod yr oeddent hwy thau a Ffrophwydo nad oedd Duw yn Gollwng'n ango monynt wedi i Ham ai Heppil Lywodratehu 2000. Gyntta or Byd yn ddi gyfrath arol hynny cafodd Eppil Sem lywodraethdu an gyfraith Duw a Moſes ac ar ol ir Iddewon y rhai arol i Abraham dderbyn Addewid galwyd Heppil ſem yn Iddewon ond arol i Jacob ymdrech Ar

Angel galwyd Jacob yn Iſrael di Hiliogath yn Iſraeliad ond Nhw aethou yn felltigedig ac ar walger ar ol Croeſhoilio Ein Harglwydd a Hiachawdwr Jeſu Griſt Mab Duw, can hynny Hwy a Ddwudaſant y Pryd hyny Bydded i Waed ef arnom ni ac ar ein plant Ond i Dduw y Byddo'r Diolch Mae yn Heglwuſydd Ni a ninau hefyd yn Gweddio efo yr Iddewon Turkiad ar anffyddloniad ac hefo holl Ddynol riw ſy yma ar y ddaer, Gwelwn Mor Fawr ydiw Parthau.r Byd ſydd'n adnabyddus Ou Blaena ac Etto heb Gyflawn gael Cyfri Or Ddaear i gid Gellwn Ddeallt Gael O Japheth Gopia Cowyr Or llyfra Heſg ar

Llyfra Crwyn ar Llechau mawrion ſgrifenedig Oedd yn'r Arch ac iddo ef ai Heppil i Gadw fel Sem ai Heppill a Ham hefyd.

Ond Gwubydd fod Llyfra'n 'r Aipht 'lle Bu Meoſes Gant O flynyddodd yn Cael gwybodaeth O Honynt cin Dyfod Drwy'r Mor Coch i arwain Plant Duw ſef r Iſraeliad ac i Fynydd Seina Trwy Orchymyn Duw i Sgrifeny'r Deddfau a Llyfr Genaſis.

yr Oedd'r hen Baganiad'n ſgrifeny Hyſtoriau Cowyr Or Pethaua ddigwydda'n i plith hwy.

Ac Oni Bae hyny gida Chwilio pob Cwr Or Bud ſef Aſia Affrika Europia ac Amerika ſef y pedwar Chwarter hynny y ranodd Noah rhwng i blant ai wyrion yn y 700. flwyddyn oi oedran drwy gyngor i oreſgynydd Peleg canys yn amſer Peleg y chwiliwud ac y rhanwyd y Ddaear.

mae'r gwyr llythrenog'n i hiſtoriau yn dywedyd mae yn Aſia creawdd Duw Adda ac Efa ac mae yno y ganwud Criſt yn Ninas Bethlem Judea yn'r un Aſia i mae Aſia leia lle bu'r ſaith Eglws'r ſgrifenodd Criſt atynt wedi i dderchafu drwy law Ioan, ac yn yr un Aſia y Pregethodd Criſt ac yno hefyd y mae y mynydd lle ſafodd Arch, Noah, arno arol diliw mae yno aneirif o Drefydd a meuſudd Armenia ar llyn Drewllud lle bu Sodom a Gamora Segor a Salo-

Salome a Dinas Fawr Galdame, 'n agos yno mae Gwlad Iſrael a Juda, a Jeruſalem a Hebron a Mamre, nid iwr Wlad ond wuth Ugian Milltir o hyd a thrigian o led eto rhyfeddol oedd lluaws i Thrigolion a ffrwuthloned oedd i thir, ynghylch canol y Bud ydiw y maneu hyny.

Ac yno y Dechreuad Pregethu'r Efengil gynta Palaſteina ac Arabia ydynt agos iw gilydd ac mae ynddynt Iddewon Turkiad Griſtnogion Groegiad, ar Mahowmediad

Yn Aſia y mae Niniſe ac Aſyria a Meſapotamie ſef Paradwys a Babilon A Gwlad Magog ſef ail Mab Japhath, yn agos at hynny mae ſgythia ymerodreth fawr pum mil o filltyrodd o hyd a thair mil o Filltyrodd o led, ternaſodd gog ledd Aſia ydynt a dwidir fund yno rai o Feibion Japheth yn chwaneg na Magog Cydnabyddant Anfarwoldeb'r Enaid mae yno Iddewon Criſtnogion a Mahomediad 'n byw mae yno Drefudd a Cheſtill hud gida glan y Morodd ac'n agos yno mae Ternas fawr ynddi hi y mae Queen Say o daith deu ddydd o hyd y dyfyd i Thrigolion fod ganthynt gelfyddud printio a gwneud gynau.

Mae rhai o honynt yn addoli llun Gwraig a Dyn bach ar i braech'r hwn a aned iddi a hitha 'n Forwyn.

Yr Ail rhan or Byd a Elwir Affrica galwud hi felly o herwydd gwreſog ydi'r hin yno, am fod'r Haul uwch benau y trigolion ynddi.

Ethiopia ſydd'n agos yno gelwir hi felly o herwydd bod i thrigolion'n dduon, Dwidir fod llyfrdy yn un o Blaſa'r Emerodwr hwnw a Llyfr Prophwudoliaeth Henoch a Llyfra Eraill nad ydynt genym ni, mae yno ddau Aua a dau haf.

Alexandria'n'r Aipht ſydd ddinas fawr ac ynddi Lyfrdy mawr ai lyralydd o heſg llydain, mae yno dre a elwir Cair o wuth Milltir ar Higian o hyd, nid oes yno fawr Wlaw ond'r Afon Nilus Sydd weithia yn chwyddo dros y tir ac

'n

'n i wrteithio, ni welant moi cyſgod Pan dwno Haul'r Haf am i ſod'n union uwch i Penau.

Y Trydudd ehwarter ir Bud a el wir Europia ac yn awr yr Odidocaf or Cwbwl ynddi hi mae ynys y Cedyrn ſef Brydain fwr Ogygia ſef i Hiberna neu'r Iwrddon Orecadas, Hebridas, Mona Manew Ffraink, Hiſpaen, Bataſa ſef Holand ſafo y Geneva, tu ai gogledd mae Poland fawr Denmark Swedan Ffenicia Gadarn, a Muſgofia fawr tair Mil o filldir odd o hyd Tranciliamold afia Walcia, Bulgaria Boſnia, Sclafinid i Lluricum Dalmatia Cereta.

Hyd yno y Daeth Paul dan Bre-

bregethu o Jeruſalem a chorinthia Theſalonica Macedonia Thraſia, Conſtantinople yr hon a Adeiladodd Conſtius Fab Elan lueddog yn agos yno mae Antiocia

Y bedwaredd Ran or Bud o Elwir America Tybir wrth'r Haul ar Lleuad ar Ser i bod hi agos cimin ar tri Chwarter eraill Or Bud a phan fo'r hi yn nos efo ni ym Mrydan y budd hi'n ddydd yn America.

